CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
11 Chwefror 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, R G Parry, S Parry, I Rowlands, K Humphreys, D Michael, N Highley, C Ll Thomas

YMDDIHEURIADAU
Cyng A Michael, Cyng D Rees (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP.

DATGAN DIDDORDEB - Dim.

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 14 Ionawr 2015
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12 Tachwedd 2014, Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r clerc wedi cyflwyno cais llawn.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfan Bws (yswiriant) - Mae'r clerc wedi derbyn enwau a chyfeiriadau perchenogion y cerbydau oddi DVLA ac yn disgwyl am ymateb gan un ohonynt cyn symud ymlaen â'r hawliad yswiriant
Lon Salem - Dywedodd Cyng R G Parry bydd y gwaith (dwr ar y ffordd) yn cael ei wneud pan fydd y gwaith palmentydd yn cael ei wneud.
23 Bro Mynydd - llosgi rwber - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn ymchwilio.
Twnnel Helyg - Cynhelir cyfarfod yn y maes chwarae 10.02.15 - Cyng I Roberts, K Humphreys, A Michael a Mrs B Hawker. Mae Mrs Hawker (arbenigwr helyg) wedi cynnig adeiladu 2 twnel (3 medr yr un) yn cynnwys gorchudd tir am côst o gwmpas £600. Penderfyniwyd symud ymlaen. Bydd angen lefelio rhan o'r tir.
Arwyddion ceffylau - Bydd y Cyngor Sir yn ystyried gosod 3 arwydd yn y pentref.
Tender torri gwair - Dywedodd y Clerc bod Mr Rhys Williams wedi derbyn cynnig y cyngor am flwyddyn arall - côst £1494.50
Scottish Power - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Scottish Power
Bocsys ailgylchu - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir

ARODDIAD Y CADEIRYDD- gofynwyd i Cyng C Ll Thomas trefnu gyda Mr Neville Evans i cau cyfrif y pwyllgor maes chwarae a trosglwyddo yr arian i cyfrif y Cyngor

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Mawrth 2015

.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Corfforaethol
Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Mon - rhaid penodi 2 gynrychiolydd newydd am y cyfnod fydd yn cychwyn ar 18 Rhagfyr 2015 - dim diddordeb

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Dim

MATERION ARIANNOL
Penderfyniwyd talu aelodaeth Unllais Cymru £110.00

MATERION ERAILL
Llosgi Gwastraff Trafodwyd cwyn am llosgi deunydd gwastraff ar tir y White House a Bull Bach Lon Salem. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
Gosod Tai Bryngwran - Mae teulu tu allan o Bryngwran wedi cael tenantiaeth ty awdurdod lleol ym Mryngwran gyda 3 lloft pan fo teleuoedd yn y pentref yn disgwyl at tai gyda 3 lloft. Gofynnwyd i'r Clerc trafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
Mynwent Llanbeulan - Bydd y Clerc yn cysylltu a'r War Graves Commission i gofyn paham mae'r Comisiwn ddim yn gwneud taliadau cynhaliaeth.

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Mawrth 2015